OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3159

## Rheoliadau Cynhyrchion Organig (Cymru) 2002

**Tramgwyddau oherwydd bai person arall ac amddiffyniad o ofal dyladwy**

**11.**—(1) Os yw unrhyw berson yn tramgwyddo o dan reoliad 6(2) oherwydd gweithred neu fethiant rhyw berson arall, bydd y person arall hwnnw yn euog o'r tramgwydd; a gall person gael ei gyhuddo o'r tramgwydd a'i gollfarnu yn rhinwedd y paragraff hwn p'un a oes achos yn cael ei ddwyn yn erbyn y person cyntaf ai peidio.

(2) Mewn unrhyw achos am dramgwydd o dan reoliad 6(2) uchod, bydd yn amddiffyniad i'r person a gyhuddwyd, yn ddarostyngedig i baragraff (3) isod, brofi ei fod ef neu ei bod hi wedi cymryd pob cam rhesymol ymlaen llaw ac wedi arfer pob gofal dyladwy er mwyn osgoi tramgwyddo ei hunan neu er mwyn atal person o dan ei reolaeth rhag tramgwyddo.

(3) Os yw'r amddiffyniad a ddarperir gan baragraff (2) uchod mewn unrhyw achos yn ymwneud â'r honiad bod y tramgwydd wedi'i gyflawni oherwydd gweithred neu ddiffyg gweithred person arall, neu oherwydd dibyniaeth ar wybodaeth a roddwyd gan berson arall, ni fydd gan y person a gyhuddir hawl i ddibynnu ar yr amddiffyniad hwnnw heb ganiatâd y llys oni bai—

(a) o leiaf saith diwrnod clir cyn y gwrandawiad, a

(b) os yw wedi ymddangos o'r blaen gerbron llys mewn cysylltiad â'r tramgwydd honedig o fewn un mis ar ôl ymddangos felly am y tro cyntaf,

ei fod wedi cyflwyno i'r erlynydd hysbysiad ysgrifenedig yn rhoi unrhyw wybodaeth a oedd yn ei feddiant ar y pryd sy'n dangos pwy oedd y person arall hwnnw neu sy'n helpu i ddangos pwy ydoedd.